Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru

Ganwyd Emyr ym Menllech, Sir Fôn, ac enillodd radd dosbarth cyntaf mewn daearyddiaeth ac economeg ym Mhrifysgol Reading, a gradd doethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl gyrfa gydag Undeb Amaethwyr Cymru fe ymunodd â'r Swyddfa Gymreig yn 1991.

Yn dilyn swyddi ym maes iechyd a diwylliant, cafodd Emyr ddyrchafiad i'r uwch wasanaeth sifil lle ddaliodd swyddi mewn Cynllunio Ariannol a Pholisi Economaidd.

Yn 2003 daeth yn Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Yn ystod ei amser o fewn Llywodraeth Cymru mae Emyr wedi bod yn Gyfarwyddwr, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol; a Chyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Sgiliau.

Ym mis Tachwedd 2012 fe benodwyd Emyr yn Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2013.

Mae Emyr yn gymrawd anrhydeddus o Brifysgol Aberystwyth.